

# Dylan Deinosor




Tric a Chlic 3



Deinosor drygionus
oedd Dylan.






Roedd Dylan yn hoffi
chwarae cuddio.




Roedd Llew Llygoden yn chwilio amdano ond ...






roedd Dylan yn cuddio ar ben y goeden.




Roedd Titw Tylluan yn
chwilio amdano ond ...






roedd Dylan yn
cuddio tu ôl i'r llwyn.




Roedd Cadi Cwningen yn chwilio amdano ond ...





roedd Dylan yn cuddio yn y sied yn yr ardd.



"Wel, ble mae Dylan Deinosor?" gofynnodd Llew, Titw a Cadi.





Mae Dylan Deinosor yn y sied yn yr ardd. Ydy Dylan yn cuddio?

Nac ydy! Mae Dylan Deinosor yn cysgu'n braf!

